Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| TEITL | **Crynodeb Llywodraeth Cymru o'r Ymatebion i'r Papur Gwyn - Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2012** |
| DYDDIAD | **26 Mawrth 2012** |
| GAN | **Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau** |

Ar 10 Hydref 2011 cyhoeddais Bapur Gwyn i gael barn pobl ynghylch cynigion am Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). Cyhoeddaf heddiw [26 Mawrth 2012] grynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r Papur Gwyn.

Bydd y Bil Drafft yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y meysydd canlynol:

- Ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder;
- Canllawiau ar Wella Ysgolion;
- Trefniadaeth Ysgolion;
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Cyfarfodydd Rhieni Blynyddol;
- Brecwast am ddim mewn ysgolion;
- Cwnsela mewn ysgolion;
- Codi taliadau hyblyg am brydau ysgol;

Mae'r newidiadau uchod yn rhai pwysig ac yn rhan o'r pecyn o ddiwygiadau y bwriadaf eu cyflwyno ar gyfer addysg yn ystod tymor presennol Llywodraeth Cymru.

Fy mwriad yw cyflwyno'r Bil Drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl toriad y Pasg.